# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

**RHAN 9**

TERFYNU ETC. CONTRACTAU MEDDIANNAETH

**PENNOD 13**

CEFNU

(MAE'R BENNOD HON YN GYMWYS I BOB CONTRACT MEDDIANNAETH)

**220 Meddiannu anheddau y cefnwyd arnynt**

(1) Os yw'r landlord o dan gontract meddiannaeth perthnasol yn credu bod deiliad y contract wedi cefnu ar yr annedd, caiff y landlord adennill meddiant o'r annedd yn unol â'r adran hon.

(2) Mae contract meddiannaeth yn berthnasol os yw'n un o delerau'r contract (ym mha fodd bynnag y'i mynegir) bod yn rhaid i ddeiliad y contract feddiannu'r annedd fel ei unig gartref neu ei brif gartref.

(3) Rhaid i'r landlord roi hysbysiad i ddeiliad y contract—

(a) yn datgan bod y landlord yn credu bod deiliad y contract wedi cefnu ar yr annedd,

(b) yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y contract hysbysu'r landlord mewn ysgrifen cyn diwedd y cyfnod rhybuddio os nad yw deiliad y contract wedi cefnu ar yr annedd, ac

(c) yn hysbysu deiliad y contract o fwriad y landlord i derfynu'r contract os yw'r landlord, ar ddiwedd y cyfnod rhybuddio, yn fodlon bod deiliad y contract wedi cefnu ar yr annedd.

(4) Yn ystod y cyfnod rhybuddio rhaid i'r landlord wneud unrhyw ymholiadau sy'n angenrheidiol er mwyn bodloni ei hun bod deiliad y contract wedi cefnu ar yr annedd.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Adran 220 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(5) Ar ddiwedd y cyfnod rhybuddio caiff y landlord, os yw'n fodlon fel y disgrifir yn is-adran (4), derfynu'r contract drwy roi hysbysiad i ddeiliad y contract.

(6) Daw'r contract i ben pan roddir yr hysbysiad o dan is-adran (5) i ddeiliad y contract.

(7) Os terfynir contract meddiannaeth o dan yr adran hon caiff y landlord adennill meddiant o'r annedd heb achos llys.

(8) Y cyfnod rhybuddio yw'r cyfnod o bedair wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir hysbysiad o dan is-adran (3) i ddeiliad y contract.

(9) Rhaid i'r landlord roi copi o hysbysiad o dan is-adran (3) a chopi o hysbysiad o dan is-adran (5) i unrhyw letywr neu isddeiliad i ddeiliad y contract.

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** Rhn. 9 wedi ei eithrio (1.12.2022) gan 2004 c. 34, a. 33(c) (fel y mewnosodwyd gan Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/1166), rhlau. 1(1), **28(2)(c)**)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 220 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I2** A. 220 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Adran 220 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) savings for amendments by 2018 anaw 1, s. 6, Sch. 6 by S.I. 2019/110 reg. 5

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

– s. 20(3)(ma) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(2)
– s. 135(2)(ia) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(3)
– s. 186A-186C inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(1)
– s. 198A inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 5